Annwyl Rieni a Gofalwyr 22.07.22

Gyda chalon drom yr ydym yn rhannu'r newyddion gyda chi bod ein ffrind a chydweithwraig hoff ac annwyl, Mrs Sonia Gatt, wedi marw yn dawel yn ei chartref yn gynharach yr wythnos hon, yn dilyn salwch byr.

Mae ein meddyliau gyda ffrindiau lu a theulu Sonia yn ystod y cyfnod hwn ac rydym ni fel cymuned ysgol yn anfon ein cariad yn arbennig at Mike, Rebecca a Matthew, Joseph a Charlotte.

Mae gyrfa addysgu hir Sonia, a ddaeth â hi i Fro Ogwr ym 1999, wedi ysbrydoli ac yn dal i ysbrydoli llawer o'n disgyblion a'n cyn-ddisgyblion. Fe wnaeth ei brwdfrydedd uniongyrchol dros chwaraeon (yn arbennig traws gwlad) ennyn diddordeb brwd mewn chwaraeon a rhedeg ymhlith llawer o ddisgyblion hefyd ac roedd Sonia yn aml i'w gweld mewn legins ac esgidiau chwaraeon gyda'i hegni diderfyn a'i gwên ddisglair. Roedd ei dawn mewn mathemateg a'i chariad at y pwnc yn amlwg a hithau wedi bod yn arweinydd Rhifedd yn yr ysgol am flynyddoedd maith. Yn ystod y pandemig, daeth gwasanaethau Sonia ar y gitâr a'i sesiynau darllen â gwên i lawer yn ystod cyfnod anodd.

Roedd Sonia yn ffrind a chydweithwraig garedig a gofalgar ac rydym ni fel cymuned yn teimlo'r golled ar ei hôl yn fawr iawn. A wnewch chi fod yn gefn i'ch gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn, os gwelwch yn dda. Wrth gwrs, bydd staff a disgyblion hefyd yn derbyn cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn ac yn y dyfodol.

Gyda'n dymuniadau gorau,

Sharon Jayne Nik Dart
Pennaeth Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dear Parents / Carers 22.07.22

It is with great sadness that we share that our much loved and valued friend and colleague, Mrs Sonia Gatt, passed away peacefully at home earlier this week, after a short illness.

Our thoughts are with Sonia's many friends and family during this time and we send our love as a school community especially to Mike, Rebecca and Matthew, Joseph and Charlotte.

Sonia's long teaching career, leading to Bro Ogwr in 1999, has inspired and continues to inspire many of our pupils and former pupils. Her direct enthusiasm for sports (and in particular trawsgwlad) led to many pupils also finding a love for sports and running and Sonia was often to be found in leggings and trainers, with her unbounding energy and brilliant smile. Her aptitude for and love of Maths led the school in Numeracy for many years. During the pandemic, Sonia's assemblies on her guitar and reading sessions brought a smile to many in difficult times.

Sonia was a kind and caring friend and colleague and we as a community deeply feel her loss. Please support each other during this difficult time. Staff and pupils will of course also be supported during this time and going forward.

With our very best wishes,

Sharon Jayne Nik Dart
Pennaeth Chair of Governors